

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd oedfa yn Llanberis am 10.00 o'r gloch dan ofal y Parchg Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog. Croeso cynnes iddo, a diolch am ei wasanaeth.

Byddaf innau'n arwain yr oedfa am 10.00 or gloch yn Neiniolen.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau Mrs Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis yn Ysbyty Eryri.

Dymunwn yn dda hefyd i bawb arall sydd heb fod mewn iechyd cystal ag arfer ar hyn o bryd.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu Mrs Margaret Jones, Porth y Gogledd, Deiniolen a Mr Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch, Llanberis yn yr ysbyty ac anfonwn ein cofion cynnes atynt.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn ag Eifion a Gwyneth Roberts, Sŵn y Gwynt, Llanberis yn eu profedigaeth fawr o golli eu mab yng nghyfraith yn gwbl annisgwyl yn Ffrainc Anfonwn ein cofion cynnes at Nia a'r plant yn eu colled a'u braw.

Angladd

Bu farw Mrs Elizabeth (Betty) Roberts (gynt o 26 Rhydfadog, Deiniolen) yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ddydd Llun, Awst 4, yn 89 mlwydd oed. Roedd newydd symud yno o Ysbyty Gwynedd, wedi treulio'r blynyddoedd diwethaf yng nghartrefi Gwynfa yng Nghaernarfon a Llanwnda. Bu'n aelod ffyddlon yn Nisgwylfa ac Ebeneser dros y blynyddoedd, nes i'w hiechyd dorri a hithau'n methu â dod i'r oedfa. Bu'n gweithio am flynyddoedd ym Meddygfa Deiniolen cyn ei hymddeoliad.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Ebeneser a Mynwent machpela ddydd Llun, Awst 11 dan arweiniad y Gweinidog. Diolch i Mr John Jones am ei wasanaeth wrth yr organ. Cydymdeimlwn â Mrs Meira Rowlands, 17 Rhydfadog, a Wendy a Kevin a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl iawn.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Awst 31: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Marcus Robinson, Bethel.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Awst 31: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Awst 31: Ni fydd oedfa.

Bydd Gronyn yn ôl i'w faint arferol y Sul nesaf gobeithio.



Global Post Journalist James Foley

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 601 – Dydd Sul, 24 Awst, 2014

James Foley

Un o'r enwau a fydd yn aros yn y cof am amser hir iawn wedi misoedd yr haf hwn yw James Foley, y gohebydd a'r ffotograffydd a ddiennyddwyd yr wythnos ddiwethaf yn enw'r mudiad brawychus a gwaedlyd, Gwladwriaeth Islamaidd (IS). Roedd James Foley wedi ei gaethiwo ers iddo gael ei ddal yng Ngogledd-orllewin Syria ym mis Tachwedd 2012, a doedd neb yn siŵr ym mhle'r oedd nes y cyhoeddwyd fideo barbaraidd ohono'n cael ei ladd ddechrau'r wythnos ddiwethaf. Un peth anodd iawn i'r mwyafrif ohonom ei ddeall am y gŵr deugain oed hwn yw'r ffaith iddo gael ei gaethiwo mewn amgylchiadau tebyg yn Libya am fwy na mis yn 2011 pan oedd yn gohebu yn ystod y Rhyfel Cartref yn y wlad honno. Er gwaetha'r profiad hwnnw, mynnodd ddychwelyd i'w waith a theithio i Syria i adrodd am helyntion a dioddefaint y wlad honno. Ond fel yn hanes aml i ohebydd o'i flaen, fe gostiodd ei awydd i ddod â'r stori i sylw'r byd yn ddrud iawn iddo. Mae dewrder a phenderfyniad pobl o'r fath yn ein synnu a'n rhyfeddu.

Ni allwn ddychmygu poen a galar ei rieni a'i deulu o wybod am y modd y cafodd ei ladd; ond gallwn er hynny edmygu'r consym diffuant a fynegwyd ganddynt dros eraill sy'n cael eu dal gan y bobl a laddodd eu mab. Fe'u gwelwyd yn pledio ar y rhai sy'n eu dal i drugarhau wrthynt a'u rhyddhau.

Bob tro y clywn ni am erchyllterau o'r fath teimlwn yn gwbl analluog i wneud

dim. Ond roedd clywed rhieni James Foley yn siarad yn ein hatgoffa bod mewn gwirionedd ryweth y gallwn ei wneud wedi'r cyfan. Wedi sôn am y llaweroedd a fu'n gweddio'n ddwys dros eu mab ers iddo gael ei ddal, fe ddywedon nhw eu bod nhw fel teulu bellach angen gweddïau pobl yn eu colled a'u galar. A gobeithio y gallwn ymateb i'r gri honno trwy eu cyflwyno yn ein gweddïau i ofal cariadus Duw. Fe sonion nhw hefyd am eu hyder bod eu mab bellach yn rhydd o bob pryder yn y nefoedd. A chyda'r teulu Foley gallwn weddio dros ohebydd arall, Steven Sotloff, ac eraill sydd o bosib yn wynebu'r un diwedd ag a ddaeth i'w mab dan law gïaidd y rhai sy'n eu caethiwo.

Yn ein gweddïau hefyd, cofiwn am y miloedd lawer sy'n dioddef yn enbyd yn Syria, Irac, Gaza a mannau eraill yn y Dwyrain Canol. Gweddïwn dros bawb sy'n byw mewn ofn; y bobl y gorfodwyd iddynt adael eu cartrefi; y bobl a'r plant a anafwyd; y teuluoedd a welodd eu hanwyliaid yn cael eu lladd. Gweddïwn hefyd dros y rhai sy'n gyfrifol am yr erchyllterau, yn wleidyddion ac arweinwyr, yn filwyr a phobl gyffredin, iddynt sylweddoli'r dinistr a'r dioddefaint y maent yn ei achosi trwy eu polisiau a'u rhyfela a'u creulondeb annynol. Mae geiriau'r arweinwyr hynny mor aml dros y dyddiau diwethaf wedi ein digalonni'n llwyr; ond gweddïwn y bydd y Brenin Mawr yn rhoi gras iddynt, ynghyd â chariad at gymod a chyfiawnder.